

Holl fyfyrwyr:

O ble dylwn i gasglu fy allwedd?

Derbynfa Neuadd Aberdâr; gweler y map ar y dudalen nesaf neu defnyddiwch CF10 3UP yn eich teclyn llywio lloeren.

Pryd dylwn i gasglu fy allwedd?

10am i 4pm ar ddiwrnod cyntaf eich Cyfnod Preswyl (fel y nodir 'r dyddiad hwn ar eich Cytundeb Llety ar-lein)

Os na fyddwch yn casglu eich allwedd erbyn 4pm, efallai bydd eich llety neilltuedig yn cael ei dynnu'n ôl ac yn cael ei gynnig i fyfyrwr arall.

Ebostiwch: residences@caerdydd.ac.uk os oes gennych ymholiadau am statws eich cais.

Cyrraedd ar drafnidiaeth gyhoeddus:

Os byddwch yn cyrraedd gorsaf reilffordd Caerdydd Canolog, neu ar fws:

Tacsi – Gallwch gael gafael ar dacsî yn rhwydd o'r safle tacsîs y tu allan i orsaf reilffordd Caerdydd Canolog. Os byddwch yn cyrraedd ar fws ac yn methu dod o hyd i dacsî, 02920 333 333 yw rhif un o'r cwmnïau tacsîs lleol. Bydd y rhain yn costio oddeutu £10, gan ddibynnu ar y pellter a faint o fapiau sydd gennych.

Bws – Mae nifer o lwybrau bysiau yn rhedeg o ganol dinas Caerdydd, sy'n aros gerllaw neuaddau preswyl. I gael rhagor o wybodaeth ac amserlenni, ewch i'r dudalen we ganlynol: <http://www.cardiffbus.com/>

A oes lleoedd parcio ar gael?

Neuadd Aberconwy, Neuadd Aberdâr, Neuadd Colum a Thai Myfyrwyr (Heol/Plas Colum)

- Yn anffodus, nid oes manau parcio ar gael yn y Brifysgol. Mae nifer cyfyngedig o fannau parcio ar gael ar y stryd, ac mae wardeniaid traffig yn patrolio'r stryd yn rheolaidd felly dylech ddadlwytho mor gyflym â phosibl a gwneud yn siŵr bod rhywun yn aros gyda'r cerbyd bob amser wrth ddadlwytho
- Sylwer na chaniateir parcio yn Sgwâr y Frenhines Anne
- Ar ôl dadlwytho, gallwch barcio yn y maes parcio Talu ac Arddangos agosaf sydd ar Heol y Gogledd (gweler y map drosodd)

Neuadd Hodge


- Mae parcio ar gael ar y safle ac mae wedi'i gyfyngu i un car fesul myfyrwr
- Yn anffodus, gallwn ganiatáu 45 munud yn unig i ddadlwytho eich cerbyd oherwydd cyfyngiadau parcio a faint o bobl sy'n cyrraedd
- Ar ôl dadlwytho, gallwch barcio yn y maes parcio Talu ac Arddangos agosaf sydd ar Heol y Gogledd (gweler y map drosodd)

Neuadd Aberconwy – Cyfeirnod map 12

Neuadd Colum – Cyfeirnod map 13

Neuadd Aberdâr – Cyfeirnod map 22

Neuadd Hodge – Cyfeirnod map 17



I Neuadd Aberconwy

Ar ôl casglu eich allwedd o Neuadd Aberdâr, teithiwch i fyny Heol Corbett (hebio i'r Ysgol Cerddoriaeth) tuag at y groesffordd

Wrth y goleuadau traffig, trowch i'r chwith i Heol Colum

Mae Neuadd Aberconwy ar y dde, ychydig ar ôl y troad i'r dde ar gyfer yr Ysgol Busnes

I Neuadd Colum

Ar ôl casglu eich allwedd o Neuadd Aberdâr, teithiwch i fyny Heol Corbett (hebio i'r Ysgol Cerddoriaeth) tuag at y groesffordd

Wrth y goleuadau traffig, trowch i'r chwith i Heol Colum

Mae Neuadd Colum ar y chwith

I Neuadd Hodge

Ar ôl casglu eich allwedd o Neuadd Aberdâr, teithiwch i fyny Heol Corbett (hebio i'r Ysgol Cerddoriaeth) tuag at y groesffordd

Ewch yn syth ymlaen yn y groesffordd (trwy'r goleuadau traffig) i ben arall Heol Corbett, ac yna i Cathays Terrace

Ger y goleuadau traffig, cymerwch y troad cyntaf i'r dde i Stryd Catherine, ac i'r dde eto i Heol Woodville

Mae Neuadd Hodge ar y chwith, ychydig cyn i'r ffordd wyro i'r chwith

I Dai Myfyrwyr

Ar ôl casglu eich allwedd o Neuadd Aberdâr, teithiwch i fyny Heol Corbett (hebio i'r Ysgol Cerddoriaeth) tuag at y groesffordd

Wrth y goleuadau traffig, trowch i'r chwith i Heol Colum

Mae'r Tai Myfyrwyr ar hyd Heol Colum a Phlas Colum